**Disgrifiad Swydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg**

Gweler cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg

**Tymor y swydd**

Penodir y Cadeirydd am gyfnod o 3 blynedd*

Disgwylir i'r Pwyllgor gynnal o leiaf dau gyfarfod a dim mwy na phedwar cyfarfod mewn cyfnod o 12 mis.

Mae hon yn rôl gwirfoddol ac yn ddi-dal

* Mewn rhai amgylchiadau, rhoddir ystyriaeth i benodi Cadeirydd Interim am gyfnod o flwyddyn neu lai.

**Cefnogaeth**

Bydd y Cadeirydd yn derbyn arweiniad a chefnogaeth gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr, Trysorydd yr Urdd a chyd aelodau'r Pwyllgor. Darperir cefnogaeth weinyddol i'r Cadeirydd i gyflawni'r rôl hon.

**Prif bwrpas y rôl**

- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Monitro'r rhaglen waith cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Sicrhau bod y pwyllgor yn gwneud penderfyniadau clir ar strategaeth, rheolaeth ariannol a rheoli risg.
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynhwysedd cyfranogiad a phenderfyniadau clir.
- Datblygu'r pwyllgor a sicrhau bod aelodau'n cael eu cynnwys a'u cefnogi'n briodol.
- Cynrychioli'r sefydliad pan fo hynny'n briodol a chynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol.
- Cyflwyno adroddiad llafar ac ysgrifenedig byr i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn flynyddol, i gyd fynd â chwblhau cyfrifon yr Urdd, gan grynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn datgan barn am reolaeth fewnol a rheoli risg y sefydliad.

**Archwiliad Allanol**

i. Penodi neu ailbenodi Archwilwyr Allanol, telerau eu penodi, y ffi archwilio, a'u gallu i ddarparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio archwilwyr allanol.
ii. Monitro yn flynyddol perfformiad yr archwilwyr Allanol, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u diswyddo (lle bod gan y Bwrdd fewnbwn i hynny).
iii. Trafod gyda'r archwilwyr, cyn i'r archwiliad ddechrau, natur a sgôp yr archwiliad.
iv. Trafod gyda'r archwilwyr materion sydd wedi codi yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys y llythyr rheoli gan yr Archwilwyr Allanol a chynnwys ymatebion y rheolwyr; a barn ffurfiol yr Archwilwyr Allanol.
v. Trafod gyda'r archwilwyr unrhyw faterion eraill y gallai'r Archwilwyr Allanol fod am eu trafod (yn absenoldeb y rheolwyr lle y bo angen hynny).

**Rheolaeth, Datganiadau ac Adroddiadau Ariannol**

Craffu ar y materion canlynol, a chytuno ar argymhelliad / argymhellion i'r Bwrdd fel bo'n briodol:

i. Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol blynyddol, ar y cyd gyda'r Archwilwyr Allanol, gan gynnwys barn ffurfiol yr archwilwyr, datganiad ar bolisïau ac amcanion rheolaeth risg a rheolaeth ariannol, y dybiaeth cwmni gweithredol ,datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a chydymffurfiaeth gyda 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' a Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015).
ii. Y llythyr cynrychiolaeth cyn ei argymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ei ystyried a chymeradwyo.
iii. Yr Adroddiad Blynyddol cyn ei argymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ei ystyried a chymeradwyo er mwyn ei gyhoeddi ar wefan yr Urdd.
iv. Adolygiad rheolaidd o reoliadau ariannol a chofrestr polisïau'r Urdd.
v. Datganiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
vi. Datganiadau arferion a pherfformiad talu.
vii. Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgor, yn enw Cadeirydd y Pwyllgor – at sylw'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

**Rheoli Risg a Llywodraethant**

i. Adolygiad rheolaidd o Bolisi Risg y mudiad a sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn ddigonol ag effeithiol.
ii. Adolygiad rheolaidd o Gofrestr Risg yr Urdd.
iii. Unrhyw ddiwygiadau i bolisïau'r sefydliad ar ddatgan buddiannau, gwrth dwyll, prosesau 'chwythu chwiban' a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig, a sicrhau bod trefniadau yn eu lle sy'n caniatáu ymchwiliad teg ac annibynnol; sicrhau bod systemau yn eu lle o ran atal llwgrwobrwyo; derbyn adroddiadau ar unrhyw faterion sy'n codi / unrhyw ddiffyg cydymffurfio.
iv. Adolygiad rheolaidd buddiannau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Tîm Rheoli.
v. Adolygiad blynyddol o'r adroddiad.
vi. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel arfer yn dilyn gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun).

**Rheoli Strategaeth Buddsoddi**

i. Datblygu a rheoli strategaeth a pholisi buddsoddi o fewn fframwaith strategaeth a risg wedi eu diffinio gan y Bwrdd;
ii. Asesu'r strategaeth buddsoddi a risg;
iii. Adolygu'r polisi buddsoddi yn flynyddol;
iv. Asesu a chymeradwyo i'r Bwrdd unrhyw newidiadau i'r buddsoddiadau.

**Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn:**

- Adolygu effeithiolrwydd ei hun ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

Gorffennaf 2024